## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Cadeirydd); Cynghorydd L.O. Rowlands (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr: P. Drake, Dr. I.J. Johnson, K.F. McCaffer, J.M. Norman, M.R. Wilson and Mr. P. Lewis (Aelod Lleyg r).

Hefyd yn bresennol: R. Freitag ac S. Wyndham (Archwilio Cymru)

394 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

395 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

396 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

397 ADRODDIAD BLYNYDDOL BRO MORGANNWG (CYNLLUN GWELLA RHAN II) 2020/21 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes yr adroddiad yng nghyfarfod y Cyngor ar 20 Medi 2021.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) 2020/21, sy’n amlinellu cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei Amcanion Lles (Gwella) y cytunwyd arnynt ym mis Ebrill 2020.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn seiliedig ar werthusiad o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-25, yr ystyriwyd bod

cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor,
gan roi statws perfformiad (COG) cyffredinol o OREN ar gyfer y cyfnod. Roedd y perfformiad cyffredinol hwn yn gadarnhaol o'i osod yng nghyd-destun ymateb i bandemig byd-eang.

Adroddwyd bod pob un o'r 4 Amcan Lles wedi'u priodoli i statws perfformiad OREN cyffredinol gan adlewyrchu'r cynnydd parhaus er gwaethaf yr amgylchiadau heriol. Roedd y cynnydd o ran cyflawni ymrwymiadau Blwyddyn 1 sy'n cyd-fynd â Chynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 hefyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at
Nodau Lles Cenedlaethol Cymru, gan fod gweithgareddau wedi'u cynllunio wedi ceisio ar y cyd i gyfrannu cymaint â phosibl at y nodau cenedlaethol.

Tynnodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes sylw'r Aelodau at agwedd Olrhain Adroddiad Rheoliadol yr Adroddiad Blynyddol fel rhan o'r broses ar gyfer goruchwylio argymhellion/cynigion adroddiad rheoliadol y Cyngor ar gyfer gwella, a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r rhain. Tynnodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes sylw'r Pwyllgor hefyd at yr amserlen ar gyfer adrodd ar berfformiad corfforaethol yn y flwyddyn i ddod, gan adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a oedd yn arbennig o berthnasol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) yn cael ei nodi.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

398 ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL 2020/21 – ADRODD I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU (PC/SA151) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r rhai a oedd yn gyfrifol am lywodraethu yn dilyn archwilio Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21

Cynhaliwyd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 yn ystod y camau cwblhau terfynol.

Roedd Datganiad Cyfrifon diweddaraf 2020/21 yn cynnwys yr holl ddiwygiadau y cytunwyd arnynt ac fe'i cyflwynwyd bellach i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

O ganlyniad i effaith Pandemig Covid 19, roedd y dyddiad cau ar gyfer archwilio wedi newid o 31 Gorffennaf 2021 i 30 Tachwedd 2021.

Cynigiwyd y dylid cyflwyno’r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd i’r Cyngor ar 11 Hydref 2021 i'w gymeradwyo ac y dylai wedyn gael ei lofnodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch dibrisiant a gwerth eiddo, offer a chyfarpar, dywedodd Mr Wyndham (Archwilio Cymru) fod polisi'r Cyngor yn cyd-fynd â'r hyn a awgrymwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Cafodd polisïau ledled Cymru eu hadolygu a'u hasesu er mwyn sicrhau cysondeb ac i weld a oeddent yn briodol.

Ar ôl i’r Pwyllgor ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – BOD adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar archwilio Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cael ei gymeradwyo a bod y Datganiadau Ariannol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol yn cael eu hargymell i'w llofnodi gan y rhai a awdurdodwyd.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

Ar ôl ystyried canlyniadau archwiliad Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21.

399 GWEITHREDU'R SAFON ADRODD ARIANNOL RYNGWLADOL AR GYFER PRYDLESU (IFRS 16) (PC/SA151) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu oblygiadau ac ystyriaethau Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol newydd ar gyfer Prydlesi (SAARh 16).

O 1 Ebrill 2022, byddai Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol newydd, SAARh 16 - Prydlesi, yn dod i rym. Roedd hyn yn golygu y byddai unrhyw gytundebau prydles sydd ar waith (newydd a phresennol) bellach yn creu dyled newydd yng nghyfrifon y Cyngor, dros oes y brydles ac ased cyfatebol. Ni fyddai’r newid hwn yn effeithio ar linell waelod cyfrifon y Cyngor, ond byddai angen nifer o newidiadau technegol gan gynnwys cynnwys pob prydles newydd fel gwariant cyfalaf yng nghyfrifon y Cyngor ac ystyried rhwymedigaethau prydles y Cyngor fel dyled wrth baratoi Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad diweddaru yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn rhoi diweddariad ar y gwaith a wneir ynghylch gweithredu'r Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar gyfer Prydlesu (SAARh/*IFRS* 16).

400 ADOLYGIAD O DWYLL A LLYWODRAETHU FEL RHAN O'R ARCHWILIAD ALLANOL GAN ARCHWILIAD CYMRU (PC/SA151) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r ymatebion a roddwyd i Archwiliad Allanol ynghylch Twyll a Llywodraethu i'w hadolygu.

Rhoddodd yr adroddiad i'r Pwyllgor gopi manwl o ymateb y Cyngor i Archwilio Cymru'n gweithredu fel Archwilydd Allanol y Cyngor a oedd yn ymwneud â'r gofynion fel y'u nodir yn y Safon Ryngwladol ar gyfer Archwilio (y DU ac Iwerddon) 240 - Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll mewn archwiliad o ddatganiadau ariannol.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – BOD canfyddiadau'r adolygiad o Dwyll a Llywodraethiant fel rhan o'r archwiliad allanol gan Archwilio Cymru yn cael eu cytuno.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

O ystyried canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

401 DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL RG) –

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes yr adroddiad. Ei ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa Chwarter 1 y Risgiau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2021, fel y'i cynhwysir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol ac a amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill 2021-Mehefin 2021). Ymgorfforwyd dadansoddiad risg yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol (Atodiad A). Roedd hyn yn galluogi'r swyddogion a'r Aelodau i nodi ac asesu tueddiadau a natur drawsbynciol risgiau gyda'r gallu i archwilio'n fanwl fanylion risgiau yn ôl yr angen.

Roedd 16 o risgiau corfforaethol ar y Gofrestr. Er bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y risgiau corfforaethol yn ystod cyfnod Chwarter 4, roedd yn bwysig nodi
bod rhai risgiau ar y Gofrestr yn amrywio'n gyson. Er enghraifft, roedd
natur risgiau Covid-19 a Brexit sy'n datblygu'n gyflym yn golygu bod y sefyllfa
o ran y ddau beth hyn yn esblygu'n gyson. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried sefyllfa Chwarter 1 y Gofrestr Risg, gan nodi datblygiadau fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M.R. Wilson at faterion sy'n cael eu profi ar hyn o bryd oherwydd cynnydd mewn costau ynni, yn benodol y cynnydd mawr mewn prisiau nwy. Dywedodd yr Aelod fod angen i'r Cyngor ddod o hyd i ffyrdd o liniaru'r effaith, yn enwedig gan fod y defnydd o nwy yn debygol o fod yn uchel yn ystod cyfnod y gaeaf sydd i ddod. Hefyd, tynnodd y Cynghorydd Wilson sylw at faterion ynghylch gwaith yn ymwneud ag integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac roedd y risgiau cysylltiedig yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth dyfu'n hŷn. Felly, gofynnodd y Cynghorydd Wilson a allai'r Pwyllgor gael mwy o fanylion am y gwaith i liniaru risgiau costau ynni cynyddol ac integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

Soniodd y Cadeirydd, y Cynghorydd G.D.D. Carroll am bwysigrwydd monitro'r risg sy'n gysylltiedig ag anghenion y gweithlu. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes y byddai Uwch Dîm Arwain y Cyngor yn cadw llygad barcud ar y risg hon yn rheolaidd.

Yna,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sefyllfa risgiau corfforaethol Chwarter 1 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2021 yn cael ei nodi fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer chwarter 1.

(3) BOD adroddiad diweddaru ar sefyllfa Chwarter 2 yn cynnwys mwy o ffocws a sylw ar y goblygiadau o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwy.

(4) BOD adroddiad sefyllfa Chwarter 2 yn rhoi diweddariad manylach ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn gysylltiedig ag integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

(1) Bod yn ystyriol o adroddiad diweddaru Cofrestr Risg Chwarter 1 a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Ar y cais i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio gael eu hystyried pan gyflwynir sefyllfa Chwarter 1 y Gofrestr Risg i'r Cabinet.

(3) O ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig yn sgil yr heriau presennol sy'n effeithio ar gyflenwi nwy.

(4) I roi diweddariad manylach ar y gwaith a wnaed ynghylch integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

402 DIWEDDARIAD MENTER TWYLL GENEDLAETHOL (PGAR) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno adroddiad statws i'r Aelodau ar y cynnydd wedi'i wneud hyd yma ar y Fenter Twyll Genedlaethol.

Roedd hwn yn ymarfer bob dwy flynedd a gydlynwyd yng Nghymru gan Archwilio Cymru. Cafodd data ei echdynnu o systemau ac adroddiadau'r Cyngor a rhyddhawyd adroddiadau yn cynnwys 3,130 o bariadau posibl yn ôl i'r Cyngor ym mis Ionawr 2021.

Hyd yma roedd 88% o'r pariadau wedi'u hadolygu a nodwyd y gellir adennill £1,979. Roedd disgwyl i hyn gynyddu.

Yn ogystal, roedd y pariadau'n gyfle i lanhau data fel nodi bathodynnau glas y dylid eu canslo gan fod y derbynnydd wedi marw neu na ddylai ymgeiswyr gael eu cynnwys ar y rhestr aros tai mwyach. Cyfrifwyd y newidiadau hynny fel arbedion tybiannol yn seiliedig ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet. Ar gyfer rownd ddiweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, ers mis Ionawr 2021, nodwyd £810,401 mewn arbedion tybiannol ar gyfer y Cyngor.

Roedd ymarfer blynyddol sy'n paru aelwydydd gostyngiad person sengl (GPS) hefyd wedi dechrau. Amlygodd y pariadau hynny lle y gallai fod mwy nag un oedolyn mewn lleoliad sy'n derbyn GPS. Roedd cyfanswm o 3,314 o aelwydydd wedi'u nodi i'w hadolygu yn ymarfer 2021 a hyd yma roedd 2,572 wedi'u cau.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y pariadau sy'n weddill gyda'r Swyddog Ymchwilio Corfforaethol yn cydlynu'r dull o sicrhau bod yr adferiad yn cael ei hyrwyddo, bod data'n cael ei lanhau a bod unrhyw wendidau a nodwyd mewn systemau a phrosesau yn cael eu nodi a'u gwella.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD - BOD nodi cynnwys yr adroddiad.

Rhesym dros benderfyniadau

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

403 CYNNYDD YN ERBYN YR ARCHWILIAD MEWNOL SEILIEDIG AR RISG RISG 2021-22 (PGAR) -

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yng Nghynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol 2021-22.

Nodwyd y cynnydd wedi'i wneud yn erbyn cynllun ar sail risg archwilio mewnol 2021-22 yn Atodiad A. Dangosodd fod 10 adolygiad wedi'u cwblhau, 6 gyda barn archwilio tra bod 2 adroddiad wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft a bod 12 ar y gweill.

Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y 6 archwiliad a gwblhawyd hyd yma, rhoddwyd barn archwilio o sicrwydd sylweddol i 1 archwiliad, barn o sicrwydd rhesymol i 4 archwiliad a gwblhawyd tra bod 1 archwiliad wedi arwain at farn archwilio o sicrwydd cyfyngedig.

Roedd 30 o argymhellion wedi'u gwneud i gryfhau'r amgylchedd rheoli; roedd 2 wedi'u categoreiddio'n flaenoriaeth uchel, 13 yn flaenoriaeth ganolig a 15 yn flaenoriaeth isel. Byddai'r holl argymhellion yn cael eu monitro i sicrhau y byddent yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Yna,

PENDERFYNWYD - BOD nodi cynnwys yr adroddiad.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

404 BLAENRAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU (PGAR) -

Rhoddodd yr adroddiad Flaenraglen Waith wedi'i Diweddaru i'r Aelodau ar gyfer 2021/22.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i sicrhau bod y Pwyllgor wedi ystyried yn briodol bob agwedd ar ei swyddogaethau craidd, roedd y Flaenraglen Waith a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A wedi'i chynhyrchu ac roedd yn cyd-fynd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau newydd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi'r Flaenraglen Waith a nodi a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Yna,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Rhaglen Ymlaen Gwaith wedi'i diweddaru.

(2) Cymeradwyo'r amserlen eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 13 Rhagfyr, 2021.

<u>Rhesym dros benderfyniadau</u>

(1&2) Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol ac yn cael gwybod am y cynnydd ar y Rhaglen Waith wedi'i diweddaru.